**HYSBYSIAD PREIFATRWYDD DATA CYNGOR SIR FYNWY**

| | |
|---|---|
| **Cyfarwyddiaeth:** | Menter |
| **Gwasanaeth:** | MonLife |
| **Manylion Cyswllt:** | dataprotection@monmouthshire.gov.uk |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | **Darparu Tystiolaeth ar Effaith MonLife** |

# Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi cael y categorïau canlynol o'ch data personol:

- Enw
- Manylion Cyswllt
- Oedran ar adeg cofnodi (os yw'n berthnasol)
- Storïau personol/dyfyniadau uniongyrchol a thystebau am sut mae MonLife wedi effeithio ar eich bywyd
- Lluniau/fideos (os ydych chi'n eu darparu)

Gellir casglu'r wybodaeth categori arbennig ganlynol hefyd os yw'n uniongyrchol berthnasol:

- Gwybodaeth iechyd a lles cyffredinol
- Cyfeiriadedd Rhywiol

**Ffynhonnell eich data personol**

Daw'r wybodaeth hon o'r templed Stori Llwyddiant MonLife a gwblhawyd gennych chi a/neu unrhyw ffurflenni gwerthuso a gwblhawyd gennych chi gyda Gwasanaethau MonLife unigol.

Os hoffech ragor o wybodaeth am ffynhonnell y wybodaeth hon, cysylltwch â Chyngor Sir Fynwy. Efallai y bydd gofyn i chi wneud cais am y wybodaeth hon fel Cais Mynediad Pwnc.

## Pwrpas a sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

**Ein rhesymau cyfreithiol dros ddefnyddio'ch gwybodaeth:**

CYDSYNIAD - Rydym yn dibynnu ar eich cydsyniad penodol i brosesu eich gwybodaeth bersonol AC i rannu'n gyhoeddus y stori bersonol a ddarparwyd gennych.

## Eich hawl i dynnu'ch cydsyniad yn ôl

Mae gennych yr hawl i dynnu'n ôl eich cydsyniad ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon.

Yn yr amgylchiadau hyn, byddwn yn ceisio dileu eich gwybodaeth o'r parth cyhoeddus cyn belled ag y bo modd. Ond byddwch yn ymwybodol efallai na fyddwn yn gallu dileu pob fformat. Er enghraifft, copïau o ddogfennau, adroddiadau neu daflenni printiedig sydd eisoes wedi'u rhannu yn ein rhwydweithiau/cymuned.

I dynnu'n ôl eich cydsyniad, cysylltwch â MonLife gan ddefnyddio'r manylion sydd wedi'u nodi ar frig y ddogfen hon.

## Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth?

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Sir Fynwy.

E-bost: dataprotection@monmouthshire.gov.uk

Efallai y bydd Rheolwyr Data Eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Cysylltwch â'r Gwasanaeth am ragor o wybodaeth.

**Dyma'r adrannau rydym yn rhannu eich data â nhw'n fewnol:**
Tîm Marchnata MonLife

**Mae yna amgylchiadau lle mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i rannu'ch gwybodaeth gyda'r canlynol:**

Asiantaethau Gorfodaeth Gyfreithiol y Llywodraeth e.e. gyda'r Heddlu o dan y Ddeddf Atal neu Ganfod Troseddau.

**Ceisiadau am wybodaeth**

Gall yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Sir Fynwy fod yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol gan gynnwys unrhyw gyfraith Diogelu Data arall.

Os yw'r wybodaeth a ddarperir gennych yn agored i gais o'r fath, lle y bo'n bosibl, bydd Cyngor Sir Fynwy yn ymgynghori â chi o ran ei datgelu. Os ydych yn gwrthwynebu datgelu'ch gwybodaeth, byddwn yn atal eich gwybodaeth os yw'r ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu hynny.

## Am ba mor hir byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Byddwn yn cadw'ch gwybodaeth am uchafswm o 2 flynedd.

Os byddwn yn dymuno parhau i ddefnyddio'r wybodaeth/straeon a ddarparwyd gennych ar ôl y ddwy flynedd, byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am gytundeb cydsyniad newydd.

## Eich Hawliau

**Eich hawliau o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yw:**

- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl at fynediad
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i gywiro, rhwystro, dileu neu ddinistrio eich gwybodaeth o dan rai amgylchiadau.
- Yr hawl i gyfyngu prosesu
- Yr hawl i hygludedd data
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i iawndal os yw Cyngor Sir Fynwy yn methu â chydymffurfio â gofynion penodol y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol mewn perthynas â'ch gwybodaeth.

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.ico.org.uk

## Gweithdrefn Gwyno

Os ydych yn gwrthwynebu i'r ffordd y mae Cyngor Sir Fynwy yn trin eich data, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Gwasanaeth a nodwyd ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich problemau. Dilynwch y ddolen hon i gael rhagor o wybodaeth am y broses gwyno.
Os ydych o hyd yn anhapus, mae gennych hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth www.ico.org.uk

**HYSBYSIAD PREIFATRWYDD DATA CYNGOR SIR FYNWY**

| | |
|---|---|
| **Rhif Hysbysiad Preifatrwydd:** | 01.09.2021 |
| **Dyddiad Llunio:** | |
| **Dyddiad Cyhoeddi:** | 1 |
| **Rhif y Fersiwn:** | |

# Preifatrwydd Data
# Hysbysiad Cryno

## Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Mae prosesu eich data personol gan Gyngor Sir Fynwy yn angenrheidiol er mwyn gallu rhannu'r straeon personol o lwyddiant a'r newid yr ydych wedi cydsynio iddynt. Byddwn ond yn rhannu'r wybodaeth rydych wedi dweud wrthym eich bod am gael ei rhannu'n gyhoeddus.

Bydd yr holl fanylion personol a roddwch ar y ffurflen yn cael eu rhannu'n gyfreithlon o fewn Tîm Marchnata MonLife mewn modd diogel. Ni chaiff eich manylion eu rhannu ymhellach, oni bai mewn perthynas â diogelu neu rwymedigaethau cyfreithiol eraill.

Os ydym yn bwriadu rhannu eich stori gydsyniol â sefydliad arall, byddwn yn gwirio bod eu hysbysiadau preifatrwydd a'u cytundebau yn cadw at ein un ni. Ni fydd eich gwybodaeth gyswllt yn cael ei rhannu.

Bydd eich cofnodion yn cael eu storio a'u cadw'n ddiogel yn unol â'n polisi cadw, oni bai bod angen i ni eu cadw o dan sail gyfreithlon arall.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych yn anfodlon gyda'r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu. I gael rhagor o wybodaeth am sut y byddwn yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, cliciwch y ddolen ganlynol: https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/eich-preifatrwydd/

Os bydd angen i chi wneud cwyn am y ffordd y mae eich data wedi'i brosesu, cysylltwch â dataprotection@monmouthshire.go.uk neu os nad ydych chi'n llwyr fodlon, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar-lein yn https://ico.org.uk/about-the-ico/other-languages/welsh/welsh-complaints/ neu drwy eu llinell gymorth: 0303 123 1113.